SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD: **CYDLYNYDD ACADEMAIDD A GWIRFODDOLI**

RHEOLWR LLINELL: Rheolwr Cymorth a Chynrychiolaeth i Fyfyrwyr

CYFLOG: Gradd Cydlynydd UMAber

ORIAU: Llawn amser (36.5 awr), oriau blynyddol, i'w gweithio'n hyblyg wedi trafodaeth â'r rheolwr llinell.

DYDDIAD A YSGRIFENNWYD: 18 Medi 2017

DIBEN Y RÔL

Helpu a galluogi myfyrwyr i wirfoddoli, yn enwedig rhoi grym i fyfyrwyr i ffurfio eu profiad addysgol eu hunain, gan ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr ar gyfer yr aelodau. Datblygu cysylltiadau â mudiadau yn y gymuned leol i gysylltu myfyrwyr-wirfoddolwyr at brosiectau sy'n dwyn budd i gymuned ehangach tref a phrifysgol Aberystwyth. Bod yn aelod allgymorth gweithredol o'r staff sy'n mynd ati i siarad â myfyrwyr ynglŷn â gwirfoddoli a chynrychiolaeth academaidd

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Gwirfoddoli

- Arwain y staff wrth hyrwyddo egwyddorion gwirfoddoli, gan gydnabod y gallu i wirfoddoli yn UMAber, gan gynnwys cynrychiolwyr academaidd, arweinwyr grwpiau o fyfyrwyr, swyddogion rhan amser, ymddiriedolwyr, yn ogystal â gwirfoddolwyr prosiectau a gweithgareddau.
- Sicrhau bod UMAber yn cydnabod egwyddorion gwirfoddoliaeth drwy eu holl weithgareddau.
- Trefnu cyfraniadau gwirfoddol gan bobl er mwyn cynnal digwyddiadau mawr UMAber e.e. Ffeiriau'r Glas.
- Cydweithio â chyrff a mudiadau cymunedol i gynnig cyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned.
- Cydnabod a gwobrwyo myfyrwyr-wirfoddolwyr am eu cyfraniad, gan eu helpu i fynegi gwerth eu profiad o ran eu gyrfa.

2. Cynrychiolaeth Academaidd

- Bod yn brif aelod staff sy'n hwyluso cynllun cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr UMAber.
- Cynorthwyo carfannau o fyfyrwyr i ethol eu cynrychiolwyr cwrs yn unol â pholisïau a gwerthoedd perthnasol UMAber.
- Datblygu, cynnal a gwerthuso rhaglen hyfforddiant a chymorth i alluogi cynrychiolwyr academaidd myfyrwyr i gynrychioli eu cyfoedion yn effeithiol.
- Monitro, cofnodi ac adrodd allbynau ac effeithiau o gynllun cynrychiolaeth academaidd y myfyrwyr.
- Gwerthuso'r cynllun cynrychiolaeth academaidd yn rheolaidd, gan wneud argymhellion ac, yn eu tro, gweithredu'r gwelliannau.
- Sicrhau y caiff cyfleoedd ac effeithiau'r cynllun cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr eu cyfathrebu'n eang ymysg yr aelodau i hybu ymwybyddiaeth a chraffu.
- Hyrwyddo egwyddor partneriaeth rhwng myfyrwyr ac academyddion wrth ddarparu addysg o ansawdd uchel.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yr Undeb a'r Brifysgol i ddatblygu a chynnal system gynrychiolaeth gyson, ddiddorol ac effeithiol ar lefel cyrsiau.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol i sicrhau bod systemau, polisïau a phrosesau'r Brifysgol yn effeithiol a'u bod yn cefnogi cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr o ansawdd uchel, er budd pawb.
- Gweithio gyda swyddogion a staff UMAber i gysylltu deilliannau a data cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr â blaenoriaethau a gweithrediadau'r swyddogion.
- Gweithio gyda'r tîm Cynrychiolaeth a Chymorth i Fyfyrwyr i gynnal portffolio cymorth a chynrychiolaeth i fyfyrwyr sy'n effeithiol ac sydd o ansawdd uchel.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol, fel prif hwylusydd yr Undeb, at ddibenion hyrwyddo cyfranogiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.
- Cynorthwyo swyddogion UMAber i gynyddu cynrychiolaeth ynghylch materion cynrychiolaeth academaidd, gan gynnwys y rheiny sy'n seiliedig ar ddata'r ACF.

3. Hyfforddi a Datblygu'r Aelodaeth a Gwirfoddolwyr

- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddol i arwain fel rhywbeth sydd o fudd i yrfaoedd ac i brofiad myfyrwyr.
- Gweithio gyda'r Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth i roi cymorth i grwpiau myfyrwyr i ethol eu pwyllgor yn unol â pholisïau a gwerthoedd perthnasol UMAber.
- Cynorthwyo carfannau o fyfyrwyr i ethol eu cynrychiolwyr cwrs yn unol â pholisïau a gwerthoedd perthnasol UMAber.
- Gyda chydweithwyr allweddol, datblygu a chynnal cynllun blynyddol hyfforddi arweinwyr a gwirfoddolwyr i roi sgiliau ac adnoddau angenrheidiol i'r arweinwyr/gwirfoddolwyr er mwyn iddynt lwyddo yn eu rôl.
- Bod yn brif aelod staff yr Undeb ar gyfer y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, gan gydnabod a gwobrwyo'r rheiny sy'n cyfrannu at brofiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

4. Dyletswyddau Eraill:

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau UMAber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad
Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deilydd y swydd.

Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

MANYLEB Y PERSON - CYDLYNYDD ACADEMAIDD A GWIRFODDOLI

MEINI PRAWF	Angenrheidiol	Cais	Cyfweliad
CYMWYSTERAU			
Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â '*Higher*' neu Lefel A	Hanfodol	√	
Gradd Coleg / Prifysgol	Dymunol	√	
Cymhwyster rheoli gwirfoddolwyr	Dymunol	√	
PROFIAD			
Profiad o weithio'n effeithiol ar eich liwt eich hun	Hanfodol	√	√
Profiad o drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n ennyn diddordeb	Hanfodol	√	
Profiad o gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo a chyfathrebu	Hanfodol	√	√
Profiad o reoli, ysgogi a hyfforddi gwirfoddolwyr mewn rolau annibynnol sydd wedi'u hunan-gyfeirio	Hanfodol	√	√
Profiad o ddefnyddio ystod eang o gyfryngau ar-lein gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein a datblygu/rheoli cynnwys ar wefannau.	Hanfodol	√	√
Profiad o ddatblygu a chynorthwyo prosiectau	Hanfodol	√	√
Profiad o gynorthwyo cynrychiolwyr gwleidyddol/cymunedol	Dymunol	√	√
Profiad blaenorol o weithio mewn mudiad a arweinir yn ddemocrataidd a chynorthwyo cydlyniad cymunedol	Dymunol	√	√
GWYBODAETH			
Gwybodaeth ymarferol ynglŷn â mesur effaith mewn amgylchedd cynrychiolaeth	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth o faterion a themâu cyfredol mewn Addysg Uwch ac Undebau Myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Gwybodaeth am ymagweddau at lobïo a dylanwadu mewn mudiadau cymhleth megis Prifysgolion a sefydliadau'r llywodraeth	Hanfodol		√
Dealltwriaeth o dueddiadau cyfoes mewn cynrychiolaeth a gwirfoddoli myfyrwyr	Dymunol	√	
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	√	
NODWEDDION/SGILIAU			
Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac i rymuso a sbarduno eraill	Hanfodol	√	√
Hunan-sbardunwr sydd ag agwedd gadarnhaol ac awydd pwyllog yn enwedig dan bwysedd. Hunan-gymelliannol a hunan-ddibynnol.	Hanfodol		√
Y gallu i fod y greadigol a blaengar mewn hyrwyddo ystod o wasanaethau/gweithgareddau i gynulleidfa eang ac amrywiol	Hanfodol	√	√
Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog (ysgrifenedig a llafar)	Hanfodol	√	√
Y gallu i greu a chynnal perthynas weithio gref	Hanfodol		√
Y gallu i oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol	Hanfodol	√	√
Sgiliau rheoli prosiect cadarn	Hanfodol	√	√
Hyderus ac yn gallu gwneud gwaith allgymorth yn frwd sy'n cynnwys siarad â myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Sgiliau dadansoddi data, gan gynnwys datganiadau cyllidol, dogfennau polisi a dogfennau briffio ar ymchwil.	Hanfodol	√	

Sgiliau TG, gan gynnwys dealltwriaeth drylwyr o Microsoft Office, dealltwriaeth dda o arfau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter a gwefannau.	Dymunol	√	√
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	√	
GWERTHOEDD A MOESEG			
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd democrataidd dan arweiniad myfyrwyr ac i flaenoriaethu myfyrwyr	Hanfodol		√
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	Hanfodol		√
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd sy'n gwasanaethu aelodaeth sy'n ddiwylliannol amrywiol	Hanfodol		√
Ymroddiad, agwedd gadarnhaol, allblyg ac agos-atoch, ynghyd â pharodrwydd i ymgymryd â thasgau	Hanfodol	√	√
Safonau uchel o ran gonestrwydd personol	Hanfodol		√